# Dull Gwella: Adroddiad Cryno o'r Gwerthusiad

Hallett, S., Deerfield, K., a Hudson, K.
Ebrill 2020

Prifysgol Caerdydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb a phrif negeseuon o *Dull Gwella: adroddiad gwerthuso*. Mae'r adroddiad llawn gan gynnwys y canfyddiadau, dadansoddiad a dull yr ymyriad ar gael gan Brifysgol Caerdydd a Bernardo's.

# Trosolwg

Roedd prosiect Gwella yn beilot ar gyfer dull Gwella. Cynllun ymyrryd oedd hwn a gafodd ei ddatblygu a'i gynnal gan Barnardo's Cymru ar draws gogledd a de Cymru. Roedd y prosiect a'r dull yn rhan o 'Gwella', prosiect ymchwil ac ymarfer arloesol pedair blynedd o hyd a ariennir gan Lywodraeth Cymru a gynhelir mewn partneriaeth rhwng Barnardo's Cymru a Phrifysgol Caerdydd.

Crëwyd y cynllun ymyrryd i gefnogi plant rhwng 5 ac 11 oed oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol ac wedi cael profiad o drawma a cham-drin. Ei nod oedd cynnig system o weithwyr proffesiynol cefnogol o'u cwmpas oedd yn ymwybodol o natur trawma, a gwella eu perthynas â'u prif ofalwyr. Er mwyn cyflawni'r nod, byddai ymarferydd Gwella yn gweithio'n wythnosol gyda phlentyn a'u rhieni neu ofalwyr dros gyfnod o 12 mis, a byddai'r gwaith yn canolbwyntio ar weithgareddau chwarae ar sail perthynas. Cefnogwyd hyn drwy weithio gyda rhieni, gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol o gwmpas y plentyn er mwyn annog dealltwriaeth o effaith trawma a cham-drin ar ymddygiad y plentyn, a'u hanghenion cefnogi, a cheisio gwneud darpariaeth gyfredol yn 'ymwybodol o faterion trawma'.

Dechreuodd 'blwyddyn un' y prosiect ym mis Gorffennaf 2017 ac fe barodd am 17 mis. Rhoddodd Llywodraeth Cymru arian ychwanegol i ariannu'r prosiect am 12 mis arall wedi hynny. Dechreuodd ail flwyddyn y cynllun ym mis Ionawr 2019 ac roedd yr holl achosion wedi gorffen erbyn wythnos gyntaf mis Chwefror 2020. Cafodd 31 o blant a'u rhieni a'u gofalwyr eu cefnogi drwy'r prosiect hwn.

## Y gwerthusiad

Dechreuodd y gwerthusiad ar ddechrau'r peilot a pharhaodd nes i'r prosiect ddod i ben. Roedd yn cynnwys gwerthusiad ansoddol a threfniadol o 'broses' a gwerthusiad o 'ddeilliannau'. Roedd hyn yn cynnwys pwyslais amlwg ar ddogfennu profiadau pawb oedd yn gysylltiedig â'r prosiect, gan gynnwys tîm Gwella, rhieni a gofalwyr, plant, arbenigwyr ymgynghorol a gweithwyr proffesiynol allanol o feysydd gofal cymdeithasol ac addysg. Roedd dyluniad yr ymchwil yn seiliedig ar ddulliau creadigol er mwyn i blant allu cymryd rhan. Ceisiodd ateb dau gwestiwn ymchwil: 1) beth yw cynllun ymyrryd Gwella, a sut gellir ei gyflwyno'n effeithiol?; a 2) beth yw deilliannau cynllun ymyrryd Gwella i blant a theuluoedd, a beth yw 'gwerth ychwanegol' y prosiect?

# Cefndir y datblygiad y tu ôl i brosiect a dull Gwella

Nod cyffredinol 'Gwella' oedd lleihau'r risg o blant a phobl ifanc yn dioddef Camfanteisio Rhywiol (CSE) neu'n dangos Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (HSB). Gwneir hyn drwy ddatblygu model atal i'w ddefnyddio ym maes gofal cymdeithasol, er mwyn gwella lles plant a phobl ifanc ac ymateb i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014). Dyma oedd y deilliannau cysylltiedig ar gyfer Gwella:

- Cynyddu capasiti/cynnig model ymarfer ar sail tystiolaeth ar gyfer gweithlu aml-asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd fel eu bod:

1. yn gallu adnabod ac ymateb i drawma a cham-drin cyn gynted â phosibl yn ystod plentyndod er mwyn

Believe in children
Barnardo's Cymru
CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD
Llywodraeth Cymru Welsh Government

lleihau'r perygl o CSE neu HSB ymysg plant hŷn; ac

2. yn gallu gwybod pryd mae cyfeirio at wasanaethau mwy arbenigol yn briodol ai peidio.

Er mwyn cyflawni hyn, dyma oedd ymrwymiadau perthnasol pob sefydliad:

- Byddai Barnardo's yn datblygu ac yn peilota dull arloesol o atal ac ymyrryd yn gynnar fel bod pobl ifanc yn llai tebygol o ddioddef Camfanteisio'n Rhywiol pan yn Blant (CSE) neu Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (HSB).
- Byddai Prifysgol Caerdydd yn cynnal ymchwil academaidd a gwerthusiad o'r model peilot. Diben hyn fyddai creu pecyn ymyrraeth gynnar ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau statudol ac ataliol ar gyfer plant a theuluoedd.

## Y rhadbybiaeth ar gyfer Gwella

Daeth y rhagdybiaeth wreiddiol ar gyfer Gwella o ddwy ddamcaniaeth gan Barnardo's: 1) bod cysylltiad rhwng trawma yn ystod plentyndod, CSE a HSB; a 2) bydd cefnogaeth i blentyn yn ystod eu blynyddoedd cynnar yn eu gwneud yn llai tebygol o gael eu cam-drin yn rhywiol, a/neu ddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Fe wnaeth y ddwy ddamcaniaeth hyn lywio pedwar maes ymchwil a chynhyrchu gwaith a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd ym mlwyddyn un Gwella. Roedd y rhain yn cynnwys:

1. adolygiad o lenyddiaeth oedd yn edrych ar y berthynas rhwng trawma yn ystod plentyndod, CSE a HSB;
2. ymarfer mapio sy'n edrych ar y gwasanaethau a ddarperir ledled Cymru o ran adnabod ac ymateb i blant sydd wedi profi trawma a phobl ifanc sy'n dangos ymddygiad rhywiol peryglus;
3. dadansoddi data a gedwir gan wasanaethau CSE a HSE Barnardo's, gan wneud cyfraniad gwreiddiol at y wybodaeth gyfredol a gynhyrchwyd drwy elfennau eraill o'r ymchwil i raglen Gwella ac er mwyn ei hategu;
4. ymarfer mapio systematig er mwyn creu 'map' cynhwysfawr o'r llenyddiaeth sydd ar gael mewn cysylltiad ag ymyriadau, ymatebion a dulliau gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd 'mewn perygl', yn unol â'r prif beryglon sy'n gysylltiedig â CSE a HSB.

## Crynodeb o ganfyddiadau'r ymchwil

Mae pedair elfen yr ymchwil yn cefnogi'r damcaniaethau a gyflwynwyd gan Barnardo's bod cysylltiad rhwng trawma yn ystod plentyndod, camfanteisio ar blant yn rhywiol ac ymddygiad rhywiol niweidiol; a bydd cefnogi plant yn ystod y blynyddoedd cynnar yn eu gwneud yn llai tebygol o rywun yn camfanteisio arnyn nhw'n rhywiol a/neu ddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Gwelwyd y dystiolaeth fwyaf eglur o hyn yn yr adolygiad o lenyddiaeth yn yr ymchwil. Hon yw'r brif ffynhonnell wybodaeth ar gyfer y ddamcaniaeth gyntaf, ond mae tair elfen arall y prosiect ymchwil yn ei chefnogi hefyd. Dyma'r prif ganfyddiadau a ystyriwyd:

- ➡ Ceir gwybodaeth aneglur ac anghyson am ymddygiad rhywiol amhriodol i blant a phobl ifanc, a cheir anghytuno o fewn y gymuned broffesiynol ynghylch beth mae hynny'n ei olygu;
- ➡ Mae'r sylfaen dystiolaeth yn ategu'r cysylltiadau rhwng trawma, CSE a HSB. Fodd bynnag, mae cymeriad a chwmpas y cysylltiadau hyn yn amrywio yn y llenyddiaeth;
- ➡ Maw'r llenyddiaeth yn ategu nod Gwella o edrych ar anghenion cefnogi plant a phobl ifanc mewn modd cyfannol, p'un a yw'r pryder yn ymwneud â CBE neu HSB ai peidio. Ar yr un pryd, mae'r ymchwil yn cynnig digonedd o dystiolaeth o ba mor angenrheidiol yw dulliau o'r fath a pha mor aml maen nhw'n absennol;
- ➡ Mae'r nodweddion demograffeg a hanesion o gam-drin yn y carfanau HSB a CSE ar draws achosion a gyfeiriwyd rhwng 2014 a 2017 yn amlygu patrwm eithaf tebyg o brofiadau o drawma a cham-drin ymysg plant a phobl ifanc sydd naill ai wedi cael profiad o CSE neu'n dangos HSB;
- ➡ Mae darpariaeth yng Nghymru yn amrywio ar draws meysydd gwasanaeth, ac mae dryswch ynghylch y trothwy ar gyfer cyfeirio at wasanaethau, yn enwedig ar gyfer HSB; mae pryder yng Nghymru hefyd ynghylch diffyg arian ar gyfer gwasanaethau a'r ffaith nad oes

hyfforddiant pwrpasol ar gyfer nodi CSE a HSB ac ymateb iddyn nhw;

- Prin iawn yw'r dystiolaeth o werthusiadau ffurfiol o wasanaethau yn y gronfa dystiolaeth ryngwladol; nid yw defnyddwyr gwasanaethau neu ymarferwyr wedi cael fawr o sylw, os o gwbl, yn y sylfaen dystiolaeth hon; mae'r sylfaen dystiolaeth yn ymwneud yn bennaf â phobl ifanc rhwng 13 a 18 oed;
- Mae'n amlwg bod angen gwella dealltwriaeth ac ymyriadau cefnogi ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dioddef trawma, sy'n cael eu camfanteisio'n rhywiol, ac sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol.
- Mae'r sylfaen dystiolaeth yn atgyfnerthu rhagdybiaeth Gwella bod angen cefnogaeth ac ymyriadau cynnar ar blant sydd wedi cael eu cam-drin a dioddef trawma.

Gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o gamau cynnar Gwella, ac adeiladu ar brofiad yr ymarfer a gynhyrchwyd drwy waith Barnardo's yn y ddau faes diogelu, aeth Barnardo's ati i ddatblygu Gwella er mwyn creu ymyriad ataliol ac ymarferol sy'n gallu nodi'r cysylltiadau rhwng trawma a CSE a HSB yng Nghymru a mynd i'r afael â nhw.

## Prosiect a dull ymarfer Gwella

Sefydlwyd prosiect Gwella i gefnogi'r gwaith o gyflwyno dull Gwella. Pennwyd dau ddeilliant cyffredinol ar gyfer y prosiect i wella deilliannau i blant oedd wedi dioddef trawma datblygiadol:

1. **Cynnig system gefnogi o amgylch y plentyn sy'n ymwybodol o natur trawma.**

   Un o brif nodau dull Gwella yw gwella dealltwriaeth o sut mae profiadau andwyol yn ystod plentyndod wedi dylanwadu ar ymddygiad a sut mae'n cyflwyno ei hun. Drwy sicrhau bod gan bawb o fewn eco-system y plentyn yr un ddealltwriaeth, rydym yn gobeithio creu amgylchedd sy'n gallu diwallu anghenion y plentyn a'i gefnogi i ddod dros ei drawma a bod yn wydn.

2. **Gwella'r berthynas rhwng y plentyn a'i brif ofalwr/ofalwyr.**

   Bydd ymarferwyr Gwella yn gwneud hyn drwy ganolbwyntio ar y berthynas seicolegol rhwng y plentyn a'r rhiant/gofalwr – mae hyn yn cynnwys cefnogi'r gofalwr i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae sy'n seiliedig ar berthynas a chefnogi'r gofalwr i ddeall bod profiadau andwyol yn ystod plentyndod wedi dylanwadu ar ymddygiad y plentyn. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu bod gweithwyr Gwella yn mynd i'r cartref yn wythnosol a gweithio gyda'r plentyn a'r gofalwyr.

Mae dull Gwella yn cynnwys nifer o egwyddorion sydd â sylfaen gadarn eisoes, fel gwaith aml-asiantaeth, ymarfer perthynol, cefnogi plant i ddatblygu'n iach ac ymgynghori a gwerthuso proffesiynol. Mae hefyd yn defnyddio modelau sy'n dod i'r amlwg fel y Model Adfer ar ôl Trawma (TRM) a dull Chwaraegarwch, Derbyn, Chwilfrydedd ac Empathi (PACE) o gefnogi gofalwyr sylfaenol, a hyrwyddir yn yr Ymarfer Datblygiadau Deuol (DDP).

Gellir ystyried yr egwyddorion ac elfennau amrywiol ei sy'n gysylltiedig â dyluniad Gwella, ond ynddo'i hun mae'n ddull newydd sy'n cynnig ymateb penodol i drawma fel ymyrraeth ataliol ar y cyfan ar gyfer CSE neu HSB.

### Archwiliad pellach o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer dull Gwella

Er mwyn cefnogi ei ddatblygiad a rhoi amcanion y prosiect a'r dull ei hun ar waith, aeth Prifysgol Caerdydd ati unwaith eto i edrych ar y llenyddiaeth a gynhyrchwyd drwy'r adolygiad amlinellu ac ymchwil yr ymarfer mapio systematig. Yn gyffredinol, roedd yr ail adolygiad yn atgyfnerthu nodau Gwella gan amlygu'r cryfderau a'r heriau a allai ddod i'r amlwg drwy roi dull Gwella ar waith. Dangosodd gryn gefnogaeth o blaid pwyslais perthynol a allai weithio ar gyflymder sy'n addas i blentyn a gofalwr a chysylltu eu teimladau er mwyn canfod eu ffordd o amgylch system a allai fod yn heriol. Amlygodd heriau hefyd wrth gyflwyno dull ymarfer hyblyg a newydd a allai ddefnyddio ac egwyddorion ac elfennau o sawl system. Ar yr un pryd, mae angen iddo roi sylw i sut i'w gymhwyso i sefyllfa unigryw'r plentyn ac ymateb i beth sy'n bwysig o'u safbwynt y plant a'u gofalwyr.

Oherwydd pwyslais seicolegol yr egwyddorion y tu ôl i'r ymyriad, comisiynodd Barnardo's adolygiad cyflym ar wahân o lenyddiaeth er mwyn nodi tystiolaeth o effeithiau niwrolegol a seicolegol trawma a sut gallai'r dystiolaeth hon lywio dealltwriaeth o elfennau o ddull Gwella. Nid oedd yr adolygiad yn systematig ac, fel gydag adolygiadau cyflym yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau i'w hystyried fel rhai awgrymog yn hytrach na phendant. Yn gyffredinol, mae'r adolygiad cyflym yn cefnogi'r egwyddorion a geir mewn elfennau o ddull Gwella, fel Therapi Chwarae, DDP (mewn perthynas â PACE) a TRM. Mae hefyd yn cefnogi'r nod o gynyddu ymdeimlad y plentyn o ddiogelwch, gwerth a gallu perthynol, a'i bwyslais ar ehangu sylfaen ddiogel drwy weithio gyda phrif ofalwr.

# Prif ganfyddiadau rhan un: Beth yw ymyriad Gwella, a sut gellir ei gyflwyno'n effeithiol?

Nod y gwerthusiad o'r 'broses' oedd cyflwyno amlinelliad manwl o gwmpas ac elfennau trefniadol Gwella er mwyn llywio unrhyw gynlluniau i'w ddyblygu neu ei ehangu yng Nghymru neu'n genedlaethol. Ceisiom nodi sut rhoddwyd yr ymyriad a'r dull waith yn ymarferol. Fe wnaethom hefyd edrych ar faterion trefniadol o ran ei roi ar waith er mwyn nodi ymarfer effeithiol ac aneffeithiol, ac unrhyw rwystrau. Fe wnaethom hefyd nodi'r dulliau a'r strategaethau oedd yn 'gweithio orau' er mwyn cyflwyno'r prosiect fel bod gwersi'n gallu cael eu dysgu ac er mwyn nodi strategaethau posibl a allai osgoi problemau rhag codi dros ar ôl tro a/neu leihau eu heffaith.

## Ymyriad Gwella ar waith

Mae Gwella yn ddull unigryw a pheilot oedd y prosiect i'w gyflwyno. Felly, nid oedd unrhyw ganllawiau cyfarwyddol ar gyfer yr ymyriad. Mae'r canlynol yn dod â'r dadansoddiad ynghyd er mwyn manylu ar nodweddion yr ymyriad ar waith.

Mae dull Gwella yn ddull perthynol o weithio gyda phlant a'u rhieni a gofalwyr, sy'n ystyried materion trawma ac yn seiliedig ar chwarae. Yr hyn sy'n gwneud y dull yn unigryw yw ei bwyslais canolog ar ddeall anghenion rhieni, plant a gofalwyr a chael eu harwain ganddyn nhw, yn ogystal â'i hyblygrwydd i ddefnyddio ystod o dechnegau a dulliau sefydledig (fel TRM, Therapi Chwarae, PACE, ymysg rhai eraill). Fe wnaeth hyn alluogi ymarferwyr i fod yn ymatebol i natur amrywiol y pryderon sy'n ymwneud yn benodol â theuluoedd, a gweithio gyda rhieni, gofalwyr a phlant er mwyn nodi'r meysydd cefnogaeth oedd yn bwysig iddyn nhw.

Roedd yr hyblygrwydd wrth gyflwyno'r ymyriad yn golygu bod modd gweithio o amgylch unrhyw wrthdaro posibl rhwng y dulliau a'r egwyddorion yn null Gwella, a chafodd yr hyblygrwydd hwn ei ystyried yn un o brif gryfderau'r ymyriad.

Roedd ymarfer yr ymarferwyr yn amrywio o ran sut rhoddwyd yr ymyriad ar waith a'r gweithgareddau a'r dulliau a ddefnyddiwyd. O'r data roedd yn bosibl dod i'r casgliad bod tair prif elfen yn llywio sut y cyflwynwyd yr ymyriad ym mhob achos:

1. Roedd yr ymyriad yn 'ymwybodol o faterion trawma' gan olygu bod cydnabyddiaeth o'r trawma penodol y mae plentyn wedi bod drwyddo, a'r anghenion a allai fod yn bresennol neu fod wedi'u gwaethygu o ganlyniad i'r trawma, yn ogystal â sut gallai trawma o'r fath effeithio ar eu hymddygiad. Yn hyn o beth, ni wnaeth yr ymyriad ganolbwyntio ar y trawma ei hun, ac roedd yn fodd o ddeall y gallai fod ystod o resymau (ar wahân i drawma) y tu ôl i'r anghenion a'r ymddygiadau hyn;
2. Canolbwyntiodd yr ymyriad ar berthnasoedd yn bennaf, ac ar ddeall a gweithio i gefnogi y plentyn yng nghyd-destun eu prif berthnasoedd, gan gynnwys y rhwydwaith proffesiynol ehangach o'u cwmpas;
3. Roedd yr ymyriad yn cynnwys dulliau a gweithgareddau creadigol ar sail chwarae i hwyluso gweithio perthynol mewn modd cyfranogol oedd yn ystyried materion trawma.

Felly, roedd pwyslais ar berthnasoedd yn rhan ganolog o'r ymyriadau ym mhob achos, a hynny mewn un neu ragor (neu bob un) o'r ffyrdd bosibl ganlynol:

- Y cysylltiad perthynol rhwng rhiant/gofalwr a'r plentyn: cefnogi rhieni/gofalwyr a phlant i

adeiladu ar eu cysylltiad perthynol;

- Cefnogi'r berthynas rhwng y rhiant/gofalwr a'r plentyn: yn canolbwyntio ar gefnogi rhieni a gofalwyr gyda'u 'llythrennedd emosiynol' a'u helpu i ddeall ymddygiad eu plentyn a pharatoi strategaeth er mwyn ymateb iddo mewn modd sy'n ystyried materion trawma.
- Meithrin perthynas a chysylltiad gyda phlant: gwaith un-i-un rhwng yr ymarferydd a'r plentyn, a chanolbwyntio'n bennaf ar feithrin a modelu perthynas gadarnhaol a llawn ymddiriedaeth gydag oedolyn. Roedd natur y rhyngweithio oedd yn seiliedig ar chwarae a gweithgareddau yn rhan bwysig o'r gefnogaeth.

Ochr yn ochr â'r uchod, cafwyd gwaith i gefnogi:

- Perthnasoedd yn y system o gwmpas y plentyn: cefnogi perthnasoedd y plant o fewn ac ar draws rhwydwaith ehangach y gweithwyr proffesiynol o'u cwmpas.

## Fframio'r ymyriad

Mae fframio'r dull fel un seicolegol yn gallu creu problemau, gan ei fod yn gweithredu mewn cyd-destun cymdeithasol gan weithwyr proffesiynol o faes gofal cymdeithasol. Mae prif bwyslais yr ymyriad ar berthnasoedd a'r cyd-destun perthynol o gwmpas y plentyn yn awgrymu mai ymyriad cymdeithasol (perthynol) yw hwn yn bennaf yn ymarferol. Os yw gweithwyr proffesiynol allanol yn cymryd mai ymyriad (seicolegol/cwnsela) a arweinir gan faterion trawma yw hwn, gallai hyn danseilio arbenigedd proffesiynol ymarferwyr, a chamddehongli'r ymyriad.

Yn y pen draw, efallai nad yw ei alw'n ymyriad seicolegol yn mynd i fod o gymorth o ran beth ydyw a sut mae'n gweithio yn ymarferol. Awgrymwn y gallai'r croes-gyfeirio rhwng damcaniaethau cymdeithasol a seicolegol fod o gymorth yma. Gall termau ategol fel dulliau perthynol ac ymddiddanol, yn ogystal â chyd-gynhyrchu a hawliau plant, gael eu hymgorffori wrth ail-fframio'r dull er mwyn adlewyrchu'r ymyriad yn well.

Ystyriaeth o'r egwyddorion y tu ôl i ddull Gwella
Mae'r rhan isod yn ystyried sut gwnaeth yr egwyddorion yn null Gwella lywio ymarfer a'u rhoi ar waith wrth gyflwyno'r ymyriad.

### *Model Adfer ar ôl Trawma (TRM)*

Mae'r data'n awgrymu y cafodd model TRM ei ddefnyddio'n bennaf er mwyn amlygu anghenion penodol plant, a sut gallai'r trawma a brofwyd waethygu'r anghenion hyn a bod yn sail i ymddygiad. Ni wnaeth pob ymarferydd ddefnyddio TRM er mwyn asesu nac yn uniongyrchol gyda'u cynllun gwaith gyda rhai o'u hachosion.

Mae pwyslais TRM ar sefydlu diogelwch perthynol a sylfaen gadarn cyn rhoi cynllun cefnogi i ddatblygu deilliannau (therapiwtig) ychwanegol, yn cynnig ffordd ddefnyddiol o fframio diben gwaith un-i-un ac ar sail chwarae Gwella, yn ogystal ag er mwyn monitro/cael tystiolaeth o gynnydd parhaus.

Nid oedd yn glir i ba raddau oedd budd Gwella yn gysylltiedig â phwyslais ar drawma yn ystod plentyndod a datblygiad. Yn ôl pob golwg, roedd rhai o'r cyfranogwyr yn ystyried dealltwriaeth well o safbwynt, amgylchiadau neu broblemau presennol plentyn fel gwelliant. Mae traddodiad hir ym maes gwaith cymdeithasol ynghylch gwerth y rhwydwaith ac ymarfer gan nifer o asiantaethau (gan gynnwys teuluoedd), sydd ar wahân i faterion yn ymwneud â thrawma. Mae modelau eraill yn aml yn gyrru hawliau plant neu ddulliau ymddiddanol, ac fe wnaeth o leiaf un ymarferydd Gwella amlygu pwysigrwydd safbwyntiau nad ydyn nhw'n canolbwyntio ar drawma.

### *Ffurfio achos rhwng nifer o asiantaethaU*

Roedd bron pawb a gymerodd ran yn y broses o ffurfio achosion yn gwerthfawrogi'r broses hon yn fawr. Roedd nodi trawma a digwyddiadau trawmatig a brofwyd gan blant unigol yn bwysig i ymarferwyr a gofalwyr (a rhieni weithiau) er mwyn deall anghenion plant a llywio ymarfer mewn ystod o gyd-destunau er mwyn ymateb mewn ffordd sy'n ystyried materion trawma. Roedd ffurfio achosion hefyd yn fodd o sefydlu pa gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer y prosiect. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch yr ymrwymiadau amser oedd eu hangen ar gyfer teithio i'r cyfarfodydd hyn. Roedd heriau logistaidd hefyd ar gyfer trefnu'r rhain.

Mae'r 'dull ffurfio achosion' yn cael ei lywio gan seicotherapi a damcaniaeth datblygiad plant. Fodd bynnag, mae'n debyg i'r dull 'llinell amser rheoli achosion uwch' a ddefnyddir mewn dulliau cefnogi ar gyfer y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, yn ogystal â llinellau amser digwyddiadau mewn technegau ymchwil cymdeithasol fel teclyn ar gyfer nodi digwyddiadau penodol a beth allai digwyddiadau o'r fath olygu i'r rhai sy'n cymryd rhan. O ystyried yr heriau oedd yn gysylltiedig â chael gafael ar wasanaethau ymgynghori arbenigol, yn enwedig os yw'r prosiect yn cael ei ehangu, efallai bod modd addasu'r broses fel nad yw'r broses wedi'i gyfyngu i arbenigedd clinigol. Byddai angen ystyried hyn yn ofalus a gweld ai drwy'r mewnbwn arbenigol hwn y cafwyd rhywfaint o'r gefnogaeth gan weithwyr proffesiynol allanol.

### *Chwarae ar sail perthynas*

Mae'n amlwg bod yr ymyriad yn ymwneud â chwarae perthynol mewn sawl ffordd. Roedd chwarae a natur y rhyngweithio sy'n seiliedig ar weithgareddau yn elfen bwysig o waith yr ymarferwyr. Roedd hyn yn cynnwys nifer o weithgareddau creadigol a thechnegau cerddoriaeth a drama, ar sail diddordebau'r plant unigol yr oedden nhw'n gweithio gyda nhw. Efallai nad yw'r cyfeiriad penodol at Therapi Chwarae o fewn y dull o ddefnydd ac nid yw'r adlewyrchu'r ymatebion amrywiol, unigol ac anghyfarwyddol a ddefnyddir gan ymarferwyr wrth gynnal ymyriad.

### *Integreiddio â chynlluniau sy'n bodoli eisoes*

Roedd hon yn rhan bwysig o'r ymyriad o safbwynt y rhieni, gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol allanol. Pan oedd yr ymyriad yn gweithio'n dda, gall Gwella fod yn bwynt cysylltu defnyddiol i bawb oedd yn gysylltiedig (gan gynnwys teuluoedd) gan roi safbwynt gwybodus ar ran teuluoedd a gweithwyr proffesiynol allanol. Roedd y ffaith nad oedd gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill yn ymwneud ag achosion nifer o deuluoedd erbyn diwedd yr ymyriad yn awgrymu bod yr ymyriad wedi gweithio'n dda ac yn ategu cefnogaeth.

### *Dull PACE ar gyfer y prif ofalwr*

Defnyddiodd ymarferwyr ddull PACE mewn nifer o'u hachosion, ond nid ym mhob un – nodwyd ei fod yn llai tebygol o lywio eu gwaith gyda gofalwyr maeth. Roedd ymarferwyr yn hyblyg wrth gyflwyno'r dull. Fe ddefnyddion nhw egwyddorion PACE pan oedd hynny'n ddefnyddiol ac yn briodol, hyd yn oed os nad oedd hynny'n uniongyrchol yn eu gwaith gyda rhieni a gofalwyr maeth.

### *Cefnogi'r plentyn i ddatblygu'n iach*

Fe wnaeth bron pawb a gymerodd ran siarad a dangos eu dealltwriaeth o effeithiau profiadau trawmatig ar brofiadau'r plant. Fe wnaethon nhw hefyd ddangos dealltwriaeth o sut i gydnabod achos a allai fod wedi'i ystyried yn brofiad trawmatig. Beth bynnag fo'r ddamcaniaeth y tu ôl i'r ymyriad, mae'r data yn awgrymu bod y dull cyflwyno wedi gwella dealltwriaeth o effaith trawma ar ymddygiad plant a'u hemosiynau. Nid yw hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â dealltwriaeth o ddatblygiad plentyn a/neu'r ymennydd er mwyn cyflwyno'r ymyriad. Felly, nid yw'n golygu bod angen dealltwriaeth o'r fath na bod angen ei dangos fel deilliant ymysg teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol allanol.

## Prif negeseuon o werthusiad y broses

Mae'r canlynol yn rhoi manylion y prif negeseuon ac ystyriaethau o'r gwerthusiad o ran trefnu a chyflwyno'r prosiect:

### *Y berthynas rhwng yr ymarferydd a'r plant, gofalwyr neu rieni*

Mae perthynas llawn ymddiriedaeth rhwng yr ymarferydd a'r rhieni, gofalwyr a'r plentyn yn allweddol er mwyn cyflwyno'r ymyriad a chyflawni deilliannau. Nododd y rhieni a'r gofalwyr ddwy rinwedd oedd eu hangen ar weithiwr proffesiynol effeithiol yn eu barn nhw: y gallu i greu perthynas gadarnhaol; a sgiliau ac arbenigedd perthnasol er mwyn deall trawma a rhoi cefnogaeth i blant ac ar sail anghenion y gellir eu rhoi ar waith yn barchus.

### *Cysondeb a goblygiadau absenoldebau staff*

Roedd cysondeb yn y berthynas yn allweddol hefyd wrth ystyried a oedd y prosiect yn llwyddiant neu'n fethiant. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau nad yw'r perthnasoedd a ffurfir yn debyg i drawma a gwrthodiad blaenorol. Fe wnaeth pawb a gymerodd ran nodi bod goblygiadau hynod arwyddocaol os oedd staff

yn absennol neu'n gadael. Mae hyn yn awgrymu bod angen ystyried trawma wrth drefnu'r prosiect i alluogi cysondeb a sefydlogrwydd.

### *Hyblygrwydd gyda'r ymyriad*

Un o brif gryfderau'r dull yw ei bwyslais canolog ar ddeall anghenion rhieni, plant a gofalwyr a chael eu harwain ganddyn nhw, yn ogystal â'i hyblygrwydd i ddefnyddio ystod o dechnegau a dulliau sefydledig (fel TRM, Therapi Chwarae, PACE, ymysg rhai eraill). Fe wnaeth hyn alluogi ymarferwyr i fod yn ymatebol i natur amrywiol y pryderon sy'n ymwneud yn benodol â theuluoedd, a gweithio gyda rhieni, gofalwyr a phlant er mwyn nodi'r meysydd cefnogaeth oedd yn bwysig iddyn nhw.

Roedd defnyddio dulliau'n fwy hyblyg ac mewn modd eclectig yn cyd-fynd â bod yn ymatebol i sefyllfaoedd teuluol unigryw. Fe wnaeth yr ymarferwyr a gadwodd yn gaeth at dechneg a chael eu harwain gan ddulliau (yn hytrach nag anghenion), lywio profiad llai positif a safbwyntiau ynghylch pa mor addas ydyw.

Roedd angen pwyslais cynyddol ar hyblygrwydd wrth weithio gyda'r gofalwyr maeth er mwyn symud i ffwrdd o elfennau o'r dull. Roedd gofalwyr maeth yn fwy tebygol o werthfawrogi a dangos cefnogaeth dros weithio'n uniongyrchol gyda phlant ac am waith a ddatblygodd eu dealltwriaeth o ymddygiad ac anghenion y plentyn.

### *Hyd*

Mae'r canfyddiadau yn cefnogi'r cyfnod o 12 mis ar gyfer cyflwyno'r ymyriad. Mae barn y rhai a gymerodd ran a'r profiadau a gofnodwyd o roi'r gorau i'r gwasanaeth ymysg plant a rhieni yn awgrymu bod angen i'r cyfnod hwn o 12 mis fod yn rhan o gefnogaeth sy'n dod i ben yn raddol.

Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod hyd yr ymyriad yn hanfodol ar gyfer llwyddiant di-oed a thymor hir yr ymyriad a'r deilliannau i deuluoedd mewn tair ffordd:

- yn gyntaf, er mwyn meithrin yr ymddiriedaeth sy'n hanfodol er mwyn hwyluso ymarferwyr i ymgysylltu, asesu'n briodol, a chynllunio cefnogaeth gyda rhieni a phlant.
- yn ail, hwyluso diweddglo sy'n rhoi elfen o reolaeth i blant a rhieni;
- yn drydydd, ac mewn cysylltiad â'r ail gam, sicrhau bod yr ymyriad yn dod i ben yn unol ag asesiad o anghenion a sefyllfa'r teuluoedd, yn hytrach na chadw'n gaeth at drefniadau a chyfyngiadau ariannu.

Bydd y graddau y gall y prosiect hwyluso'r tair ystyriaeth hefyd yn pennu i ba raddau y caiff y rhain eu hwyluso ac 'ystyried materion trawma' wrth ei drefnu a'i gyflwyno. Roedd heriau a phrofiadau negyddol yn gysylltiedig â gadael y rhaglen oedd yn codi'r cwestiwn sut mae hyn yn debyg i brofiadau blaenorol y plentyn o golli perthynas, ac a oes ffordd o gynnig elfen o reolaeth i'r plentyn dros y broses o ddod â'r rhaglen i ben.

### *Llwythi achosion a threfniadau cefnogi hyblyg gyda theuluoedd*

Dylid ystyried i ba raddau y gall trefniadau diniwed yr olwg a arweinir gan weithwyr proffesiynol effeithio ar deuluoedd. Mae gwaith perthynol yn cynnwys cydnabod sut gall arferion gwaith eu profi ac effeithio ar blant, rhieni a gofalwyr. Gall y rhain helpu i hwyluso ymddiriedaeth a'u hymgysylltiad â'r ymarferydd.

Roedd y dull hyblyg o weithio gyda rhieni, gofalwyr a phlant yn arwyddocaol wrth feithrin y berthynas waith oedd ynddi hi ei hun yn rhan hanfodol o lwyddiant yr ymyriad. Fe wnaeth ystod hynod amrywiol y trefniadau hwyluso bwriadau penodol yr ymyriad.

Mae'n bwysig bod dull sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf yn cael ei fabwysiadu ym mhob elfen o drefn y prosiect os mai ystyried materion trawma a chanolbwyntio ar y plentyn yw'r nod.

Roedd llwythi achosion yr ymarferwyr yn allweddol er mwyn galluogi dull o'r fath. Dywedodd yr ymarferwyr bod eu llwythi achosion yn eu galluogi i fod yn hyblyg gyda'u trefniadau a gyda theuluoedd a phlant mewn sesiynau e.e. ymestyn y sesiynau neu orffen yn gynnar a threfnu i ymweld rywbryd eto ar ddyddiad mwy addas. Fe wnaeth yr hyblygrwydd helpu i wneud eu hymweliadau wythnosol yn fwy cyson hefyd.

### *Gweithio ar draws nifer o asiantaethau a'r rhwydwaith sy'n ystyried materion trawma o gwmpas y plentyn*

O ystyried bod gan y bartneriaeth ar draws nifer o asiantaethau rôl bwysig yn yr ymyriad, mae'r canfyddiadau yn awgrymu bod angen creu system gadarn a chydnerth o gydweithio ymysg y gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Mae cydweithio â'r gwasanaethau cymdeithasol a chyfathrebu'n agored â gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gyda theuluoedd yn hanfodol er mwyn galluogi'r ymarferwyr i effeithio ar ymarfer a darpariaeth sydd eisoes yn bodoli, yn ogystal â dylanwadu ar y rhwydwaith o gwmpas y plentyn.

Mae nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n chwarae rhan yn llai pwysig o ran llwyddiant yr ymyriad. Y pwynt pwysig yw p'un a yw ymarferwyr yn gallu gweithio gyda'r asiantaethau perthnasol a'r gweithwyr proffesiynol a nodwyd sydd â rôl arwyddocaol ac sy'n gallu dylanwadu ar yr achos.

Dylid ystyried cynnwys aelodau o deulu estynedig y plant a pherthnasoedd pwysig eraill wrth ffurfio achosion neu hwyluso rhwydwaith sy'n ystyried materion trawma. Er mai un yn unig o'r rhai a gymerodd ran yn y gwerthusiad a awgrymodd hyn, mae'n codi pwynt pwysig am bwy sy'n cael eu cydnabod yn rhan o'r rhwydwaith sy'n ymwybodol o faterion trawma o gwmpas y plentyn, a'r tueddiad o fewn ymarfer gofal cymdeithasol i ganolbwyntio ar systemau a pherthnasoedd proffesiynol. Byddai'r ystyriaeth hon yn adlewyrchu ethos perthynol y dull.

### *Cefnogaeth, goruchwyliaeth a hyfforddiant*

Er nad yw'n anghyffredin i oruchwyliaeth reolaidd fod yn her mewn amgylcheddau prysur ym maes gofal cymdeithasol, mae angen amlygu pwysigrwydd cefnogaeth drwy oruchwyliaeth ar gyfer y dull. Mae gofynion emosiynol yn gysylltiedig â'r rôl. Mae'r dull yn ceisio trawsnewid sy'n cynnwys gwaith monitro, ond mae angen goruchwyliaeth reolaidd a chadw mewn cysylltiad â'r tîm ar gyfer yr elfen o'r dull lle mae angen bod yn gymwys ar draws nifer o ddulliau arbenigol. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried natur gweithio o bell. Mae'r model a gefnogir drwy'r canfyddiadau yn cynnwys goruchwyliaeth unigol reolaidd, system baru ar gyfer cefnogaeth fwy anffurfiol gan gymheiriaid. Mae hefyd yn cynnwys goruchwyliaeth reolaidd i grwpiau, a chyfarfodydd tîm fel dull mwy ffurfiol o gefnogaeth gan gymheiriaid.

Mae arbenigedd clinigol yn hanfodol yn yr ymyriad er mwyn hwyluso dealltwriaeth o drawma ac egluro cynlluniau gwaith yr ymarferwyr. Roedd ymarferwyr yn teimlo'n fwy hyderus yn eu rôl pan oedden nhw'n cael eu goruchwylio'n glinigol mewn modd oedd yn dibynnu llai ar fodelau a dulliau ymyrryd penodol, yn hytrach nag ymgynghori ar y technegau a'r modelau penodol sy'n rhan o ddull Gwella yn gyffredinol.

Mae hyblygrwydd yr ymyriad wedi annog diwylliant o chwilio am wybodaeth a sgiliau newydd a chafodd y rhain eu hymgorffori yn y modd hyblyg y cyflwynwyd yr ymyriad. Dylid cefnogi hyn. Gallai ymgorffori amser yng nghynlluniau gwaith yr ymarferwyr fel gweithgaredd myfyriol gefnogi'r amgylchedd dysgu hwn, yn ogystal â'i annog fel defnydd defnyddiol o amser i ymarferwyr.

Mae hyfforddiant am ddulliau Therapi Chwarae, TRM a DDP yn rhan bwysig o ddatblygu sgiliau ymarferwyr Gwella, ond mae lefel yr hyfforddiant a ph'un a oes angen cefnogaeth barhaus ar ymarferwyr yn dibynnu ar i ba raddau mae ymarferwyr yn asesu perthnasedd y dulliau hyn yn eu cynllun gwaith gyda phob plentyn a'u teulu.

Mae hyfforddi a datblygu staff yn elfen bwysig o drefnu'r prosiect. Mae gan hyn oblygiadau o ran trosiant staff ac ymsefydlu; mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'r cyd-destun ariannu cyffredinol. Mae'r buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant, a datblygu ystod gyfoethog o sgiliau a dysgu am dechnegau arbenigol, yn ogystal â gwaith creadigol, perthynol ac ar sail chwarae, yn dynodi bod y peilot hwn wedi sefydlu gweithlu tra medrus, a bod colli'r cyfalaf dynol hwn oherwydd problemau sy'n ymwneud â throsiant yn arwyddocaol.

### *Y cyd-destun ariannu a'r pwysau cysylltiedig*

Rydym yn nodi yr achosodd y cyd-destun ehangach hwn o ariannu am gyfnod penodol oblygiadau ar gyfer rhoi'r prosiect ar waith a'i gyflwyno. Nid prosiect Gwella yw'r unig un sy'n wynebu pwysau o ganlyniad i drefniadau ariannu ac adrodd. Fodd bynnag, mae'r rhain i'w nodi oherwydd hynodrwydd prosiectau a ariennir dros gyfnod byr – ond yn fwy felly pan mae'r rhain yn arloesol ac yn

gymhleth, yn ceisio rhoi perthynas a phlant yn gyntaf, ac wedi'u dylunio i weithio gyda darpariaeth gyfredol ac asiantaethau allanol, ac angen amser i ennill eu plwyf. Mae rhai effeithiau negyddol ar brofiadau'r plant, y teuluoedd a'r ymarferwyr oherwydd ffactorau trefniadol e.e. gweithwyr yn diweddu perthynas gyda phlentyn yn gynnar oherwydd trefniadau ariannu a chontractau cyflogaeth tymor byr, yn dangos sut y gall ceisio rhoi pwyslais ar blant a meithrin perthynas fynd yn groes i ystyriaethau trefniadol. Mae'r ffordd y mae sefydliadau a chomisiynwyr yn ystyried ac yn lliniaru'r effeithiau sy'n deillio o'r mathau hyn o wrthdaro yn her allweddol.

## Prif ganfyddiadau rhan dau: Beth yw deilliannau cynllun ymyrryd Gwella i blant a theuluoedd, a beth yw 'gwerth ychwanegol' y prosiect?

Ceisiodd y pwyslais ar ddeilliannau yn y prosiect ystyried cynnydd yn erbyn deilliannau sefydledig y prosiect a gofnodwyd drwy system ffeiliau achos Barnardo's. Roedd hefyd yn ceisio manylu ar effaith ymyriad Gwella ar ddeilliannau i blant a theuluoedd drwy ddeall ac astudio'r rhain o safbwynt plant, teuluoedd a gofalwyr, y rhai oedd yn gysylltiedig â meysydd allweddol o'u bywyd teuluol yn ogystal ag ymarferwyr Gwella. Yn y rhan hon o'r gwerthusiad, ystyriwyd hefyd pam a sut y gwnaeth Gwella'r newidiadau hyn, ac edrychwyd ar unrhyw gymariaethau â chynlluniau cefnogi neu ymyriadau eraill (os oedd gan defnyddwyr y gwasanaeth brofiad blaenorol o gefnogaeth arall).

### Prif ddeilliannau

Mae'r deiliannau a gofnodwyd ar gyfer achosion yn rhai positif ar y cyfan. Ym mhob un ond dau achos (N= 29), cofnodwyd rhywfaint o welliant ar draws rhai o'r 5 deilliant o leiaf. Mynediad at wasanaethau cefnogi; Mwy o wydnwch; Iechyd meddwl a lles gwell; Cartref/ amgylchedd gwasanaeth diogel; Lleihau effaith trawma.

Gall rhoi tystiolaeth o newid positif yn erbyn deilliannau cyffredinol fod yn arbennig o anodd ar gyfer ymyriad sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd plentyn ac sy'n cynnig cefnogaeth unigryw wedi'i theilwra. O ran ystyriaethau trefnu a chyflwyno'r prosiect, mae pennu amcanion i'w hadrodd yn eu herbyn ar gyfer ymyriad o'r fath yr un mor heriol.

Roedd y rhieni a'r gofalwyr sy'n perthyn fu'n rhan o'r gwerthusiad hwn yn unfrydol yn eu canmoliaeth o'r prosiect a'r newidiadau oedd wedi digwydd o ganlyniad i'r ymyriad. Er bod rhai o'r effeithiau hyn yn ymwneud yn benodol â phlant a theuluoedd, roedd yr effeithiau a'r deilliannau eraill yn ymwneud â'r newid yn eu dealltwriaeth o'u plant, newidiadau mewn arferion magu plant, eu lles ei hunain, a newidiadau yn ymddygiad a lles eu plentyn.

- Dywedodd 15 ohonyn nhw eu bod wedi meithrin cysylltiad gyda'u plant, eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn eu gallu i fagu plant, ac yn deall sut i chwarae a bodloni anghenion eu plant. Soniodd tri rhiant am arwyddocâd hyn yng nghyd-destun y ffaith bod eu plant wedi cael eu symud o fod dan eu gofal yn flaenorol a bod hynny wedi achosi lefelau uchel o orbryder a diffyg ffydd yn eu gallu i fod yn rhiant cyn yr ymyriad.
- Nododd y rhieni hefyd y gwelwyd gwelliannau arwyddocaol yn lles ac ymddygiad eu plant. Ar y cyfan, roedd y newidiadau yn rhai penodol i'r plentyn a'u hanghenion blaenorol e.e.: ddim yn cael arswydau nos neu hunllefau mwyach; ymgartrefu gartref; ddim yn mynegi ofn mwyach y bydd trawma o'r gorffennol yn digwydd eto; cymryd rhan mewn chwarae a bod â diddordeb mewn gemau; gwneud ffrindiau; ddim ofn y tywyllwch mwyach a gallu cysgu ar eu pen eu hunain yn eu hystafell; gallu bod ar ben eu hunain yn eu hystafelloedd gwely; gallu canolbwyntio'n llawer gwell; y gallu a'r hyder i fynegi a lleisio eu hemosiynau – megis hapusrwydd, tristwch a'u gofidion; magu hyder; mwy o hunan-barch; bod yn ymwybodol o'u cyrff mewn ffordd bositif; cymryd llai o risg yn eu hymddygiad; a llawer llai o bryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol; ddim yn cael eu hanfon gartref o'r ysgol mwyach; llai o ddicter ac ymddygiad ymosodol.

Rhoddodd y plant a gymerodd ran yn yr ymchwil ymatebion positif am yr ymyriad. Fe siaradodd y rhan fwyaf am yr holl gemau a gweithgareddau y gwnaethon nhw eu mwynhau, ac am weld eisiau eu gweithiwr. Dywedodd saith o'r plant yn benodol bod eu hymarferydd wedi eu helpu i deimlo'n dawelach, neu feddwl neu deimlo'n wahanol am bethau, neu roedden nhw'n teimlo'n hapusach ac nad oedd unrhyw beth yn eu poeni mwyach.

Fe wnaeth y chwe theulu â gofalwyr maeth fu'n rhan o'r gwerthusiad sôn am argraff gymysg o'r effeithiau wnaeth ddeillio o'r prosiect. Mewn tri achos, roedden nhw'n ansicr ynghylch rhoi'r clod i'r prosiect am y newidiadau positif a allai fod wedi digwydd i'r plentyn o dan eu gofal.

Mae'r deilliannau y gwnaeth y rhai a gymerodd ran sôn amdanyn nhw awgrymu'r themâu canlynol a allai fod yn rhan o'r pum deilliant cyfredol wrth gynllunio ar gyfer prosiect yn y dyfodol.

- Deall trawma yn well - i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol;
- Newidiadau positif i fywyd teuluol;
- Perthnasoedd teuluol gwell;
- Prosesau pontio sefydledig;
- Gwelliannau a nodir gan weithwyr proffesiynol allanol: megis cau achosion neu lai o bryderon, ymgysylltu'n bositif ag ysgolion;
- Mae pwysigrwydd datblygu perthynas llawn ymddiriedaeth rhwng yr ymarferydd a'r rhieni, gofalwyr a'r plentyn er mwyn cyflawni deilliannau yn golygu y gallai'r perthnasoedd hyn fod yn ddeilliant pwysig hefyd. Mae hyn yn arbennig o wir wrth adrodd bob yn dipyn o ystyried sut y gwnaeth pawb a gymerodd ran amlygu pwysigrwydd y cyfnod 12 mis ar gyfer hwyluso a dangos effaith.

Siaradodd gweithwyr proffesiynol o asiantaethau eraill am ddeiliannau positif i deuluoedd yn bennaf, gan ategu'r effeithiau a fynegwyd gan rieni, plant a rhai gofalwyr.

- Credwyd mai'r gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddyn nhw, hyd a chysondeb y cysylltiad, a'r berthynas yr oedd yr ymarferwyr yn gallu ei chreu gyda rhieni a phlant oedd i'w cyfrif am yr effeithiau hyn.
- Dywedodd dau weithiwr cymdeithasol na chafodd y prosiect ddeilliannau positif i ddau deulu, ac y gallai fod wedi cael effaith negyddol ar y plant a'r teuluoedd. Deallwyd mai'r absenoldebau a'r tarfu yn ystod yr ymyriad a brofwyd gan y teuluoedd o dan sylw oedd i'w cyfrif am hyn.
- Cyfeiriodd rhai at y llwyth gwaith is hefyd gyda phlentyn penodol o ganlyniad i'r prosiect oherwydd nid oedden nhw mwyach yn gorfod rheoli argyfyngau o hyd. Mae hyn yn awgrymu y gellir gwerthuso arbedion costau yn y dyfodol, ac y gallai'r rhain wrthbwyso costau sy'n gysylltiedig â Gwella.

Roedd y gwaith ffurfio achosion neu lunio llinell amser trawma a gynhaliwyd gyda gweithwyr proffesiynol a gofalwyr yn ddull pwysig o sicrhau ymrwymiad y gweithwyr proffesiynol i'r ymyriad a hwyluso dealltwriaeth o ystyr bod yn ymwybodol o faterion trawma:

- Soniodd pob gweithiwr cymdeithasol fu'n rhan o'r gwerthusiad am ddeilliannau positif o ganlyniad i ffurfio achosion. Dywedon nhw bod hyn wedi cynyddu eu dealltwriaeth o drawma ac wedi arwain at newid mewn meddylfryd naill ai drwy roi persbectif ar achos penodol, neu'n fwy cyffredinol drwy wella eu hymarfer cyffredinol.
- Fe wnaeth y gweithwyr addysg proffesiynol fu'n rhan o'r cyfarfodydd ffurfio achosion ddweud hefyd bod hyn wedi newid eu dealltwriaeth o fathau penodol o ymddygiad gan blant;
- Cymysg oedd yr argraff a gafwyd o effeithiau'r prosiect ymysg gofalwyr maeth. Fodd bynnag, roedd barn bositif gan y rhan fwyaf o'r teuluoedd gofal maeth a gymerodd ran yn y gwerthusiad ynglŷn â ffurfio achosion, gan bwysleisio ei fod wedi eu helpu i ddeall anghenion eu plentyn.

Rhoddodd pawb a gymerodd ran bwyslais amlwg ar y berthynas llawn ymddiriedaeth rhwng yr ymarferydd a'r rhieni, gofalwyr a'r plentyn er mwyn cyflawni deilliannau. Dyma rai ffactorau eraill i'w nodi:

- Gallu ac arbenigedd ymarferwyr ym maes gofal cymdeithasol;
- Hyd yr ymyriad;
- Llwythi achosion bach;
- Annibyniaeth oddi wrth gwasanaethau plant;
- Yr hyblygrwydd o allu defnyddio gwahanol dechnegau a gweithio ar draws yr ymyriad neu ganolbwyntio ar elfen berthynol benodol ohono;
- Yr hyblygrwydd o allu gweithio ar draws ffiniau ymarfer e.e. ymylon gofal, adferiadau i rieni, gofal maeth, diogelu plant.

O ystyried pwysigrwydd rôl yr ymarferydd wrth gyflwyno'r prosiectau a'r deilliannau, rydym hefyd yn nodi bod gan cefnogaeth cyfoedion, rheoli llinell a goruchwyliaeth seicolegol rôl bwysig er mwyn cyflwyno'r ymyriad a'r deilliannau yn llwyddiannus. Rydym yn nodi hefyd pwysigrwydd hwyluso diwylliant dysgu creadigol cefnogol, a mynediad at hyfforddiant.

Er bod y deilliannau wedi'u mynegi'n bendant ac yn arwyddocaol, roedd rhai pryderon ymysg rhieni a gofalwyr ynghylch rheoli'r newidiadau hyn ar ôl i'r ymyriad ddod i ben. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun newidiadau ychwanegol mewn cefnogaeth gysylltiedig, rheoli'r newid a phlant yn colli perthnasoedd pwysig, neu adegau pan oedd plant yn mynd drwy newidiadau eraill (e.e. newid ysgol neu ddigwyddiad teuluol arall o bwys). Nid yw hyn o reidrwydd yn lleihau arwyddocâd neu lwyddiant yr ymyriad. Yn hytrach, mae'n gydnabyddiaeth o gyd-destun cymdeithasol ymyriadau o'r fath a bod angen y gefnogaeth a allai gael ei lleihau'n raddol i deuluoedd yn ystod yr ymyriad.

## Ffyrdd y gwnaeth Gwella 'ychwanegu gwerth' fel prosiect

Nododd y gwerthusiad dri pheth pwysig y gwnaeth ymyriad Gwella i wella'r system o gwmpas y plentyn:

- Yn gyntaf, rhoddodd arweiniad i weithwyr proffesiynol allanol drwy arwain cyfarfod 'ffurfio achosion' gyda phwyslais ar drawma. Cafodd ei gynnal ar y dechrau er mwyn rhannu gwybodaeth am amgylchiadau'r plentyn a chyfeirio at effaith bosibl trawma ar eu hymddygiad ac anghenion lles posibl sy'n codi mewn cysylltiad â phrofiadau o drawma o'r fath. Roedd y rhai a gymerodd ran yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd ffurfio achosion hyn yn fawr.
- Yn ail, fe wnaeth ymarferwyr Gwella gefnogi gwaith parhaus gweithwyr proffesiynol allanol, gan roi arweiniad drwy gysylltiadau a chyfarfodydd. Roedd y gweithwyr proffesiynol allanol oedd â chysylltiad rheolaidd ag ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r cydweithio parhaus hwn, ond nid oedd mor nodedig pan nad oedd llawer o gysylltiad. Nid oedd unrhyw batrwm clir o ran pa weithwyr proffesiynol allanol oedd â'r cysylltiad cryfaf, ond roedd diddordeb ac ymrwymiad y gweithwyr proffesiynol allanol yn ffactor pwysig yn ôl pob golwg. Roedd lleoliad yr ymyriad yn ail ffactor yn ôl pob golwg, gan fod ymgysylltiad cryfach os oedd y gwaith wedi'i drefnu i gael ei gynnal mewn lleoliad proffesiynol, fel ysgol. Fe wnaeth dealltwriaeth fanwl ymarferwyr Gwella o'r plentyn a'r teulu o ganlyniad i berthynas barhaus (ac anfygythiol) eu galluogi i roi arweiniad pwysig i gefnogi gwaith gweithwyr proffesiynol allanol.
- Yn drydydd, ychwanegodd ymarferwyr Gwella werth at y system drwy 'sgîl-effeithiau' eu gwaith uniongyrchol parhaus gyda phlant a theuluoedd. Er enghraifft, dywedodd y rhieni a groesawodd eu plant yn ôl i fod o dan eu gofal neu oedd ar ymylon gofal bod cydweithio ag ymarferydd Gwella wedi gwella eu hyder a deinameg y teulu, er iddyn nhw fynegi pryder hefyd ynghylch diwedd yr ymyriad gan nad oedd yr ymarfer perthynol hwn ar gael mewn man arall.

Yn bennaf, fe gafodd Gwella ei ddisgrifio gan weithwyr proffesiynol allanol o ran sut y gwnaeth y berthynas rhwng ymarferydd Gwella a'r plentyn neu'r teulu gynyddu eu dealltwriaeth a'u hyder ynghylch y cyd-destun hwn. Nodwyd bod rôl ymarferwyr Gwella yn cyferbynnu'n llwyr â rôl gweithwyr allanol proffesiynol gan mai ychydig iawn o amser a chyfle oedd ganddyn nhw i feithrin perthynas gyda phlentyn neu deulu unigol yn ôl pob golwg. Yn y pen draw, roedd cymysgedd o ffactorau'n gyfrifol am lwyddiant ymarferwyr Gwella yn y maes hwn:

ymateb positif cadarn i'r gwaith cychwynnol o ffurfio achosion gyda phwyslais ar fod yn ymwybodol o faterion trawma; ymarferwyr yn rhoi gwerth ychwanegol drwy gydweithio'n barhaus ar draws nifer o asiantaethau; ac effaith anuniongyrchol ar deuluoedd yn y system.

Nododd rhieni bod eu cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol wedi newid oherwydd newid yn safbwynt y gweithiwr proffesiynol neu'r hyder yn eu gallu i fod yn rhiant o ganlyniad i'r ymyriad. Croesawodd tri theulu eu plant yn ôl gartref i fod o dan eu gofal. Roedden nhw'n cynnal y newid hwn, ac nid oedd unrhyw bryderon pellach ynghylch p'un a oedd angen Gorchymyn Gofal ar gyfer un teulu. Yr ymarferydd gafodd y clod am y deilliannau hyn am eirioli i'r gwasanaethau cymdeithasol ar eu rhan (am eu gallu i fod yn rhiant), neu am gefnogi'r teulu drwy'r newid; ac mewn rhai achosion, disgrifiwyd yr ymyriad fel y rheswm pam y daeth y plant gartref. Eglurodd tri theulu bod eu cysylltiad gyda'r gwasanaethau cymdeithas nawr yn dod i ben oherwydd newidiadau a ddechreuwyd o ganlyniad i'r ymyriad, ac roedd llawer lai o bryderon a chysylltiad i deulu arall.

Roedd ymarferwyr Gwella mewn sefyllfa unigryw i gyflawni deilliannau ar gyfer plant a theuluoedd oherwydd y ffydd yr oedd gan y plant, y rhieni a'r gofalwyr o dan sylw wedi'i roi yn yr ymarferwyr. Ystyriwyd mai'r hyblygrwydd, y cysondeb a'r cydweithio anghyfarwyddol oedd i'w gweld yn y berthynas rhwng yr ymarferydd a'r rhieni, plant a gofalwyr oedd y gwahaniaeth rhwng Gwella a mathau eraill o gefnogaeth a gofal cymdeithasol. Yn ôl pob tebyg, mae gan natur gwirfoddol ac annibynnol y gwasanaeth ryw rôl o ran sefydlu natur y berthynas rhwng ymarferwyr a theuluoedd, a'r deilliannau positif a gyflawnwyd. Cafodd natur unigryw'r ymyriad ei ddynodi hefyd gan y gwahaniaethau clir a nodwyd rhwng y gweithgareddau creadigol a ddefnyddiodd yr ymyriad a dulliau tebyg y mae gweithwyr cymdeithasol yn eu defnyddio.

### *Sylwadau terfynol*

Dywedodd yr holl rieni a'r gofalwyr sy'n perthyn fu'n rhan o'r gwerthusiad eu bod yn falch o fod wedi cymryd rhan yn y prosiect. Ar y cyfan, fe wnaeth y gofalwyr maeth hefyd ganmol yr ymyriad, hyd yn oed os oedden nhw'n teimlo nes ymlaen y cafodd eu disgwyliadau cychwynnol eu siomi ac iddyn nhw wrthod parhau i gymryd rhan, neu pan ddywedon nhw nad oedden nhw'n teimlo bod y gwasanaeth yn briodol i'w plentyn maeth a'u hamgylchiadau. Nifer cymharol isel o weithwyr proffesiynol o asiantaethau partner gymerodd ran yn y gwerthusiad, ond roedd bron pawb wnaeth gymryd rhan yn frwdfrydig ynghylch bod yn gysylltiedig â Gwella yn y dyfodol. Nododd y gweithwyr proffesiynol allanol fu'n rhan o'r gwerthusiad bod angen y prosiect, a'i gyfraniad at y gwaith a wneir gyda theuluoedd. Yr unig eithriadau i hyn oedd pan fynegodd gweithwyr proffesiynol bryderon am eu profiadau o'i roi ar waith (e.e. yr amser a gymerodd y broses gyfeirio neu adnoddau tîm Gwella pan oedd staff yn absennol), ond fe bwysleision nhw unwaith eto eu hargraff bositif o'r ymyriad a sut allai fod o fudd i blant a theuluoedd.

Am ragor o wybodaeth, gweler Hallett, S., Deerfield, K., Hudson, K. 2020. Dull Gwella: adroddiad gwerthuso. Prifysgol Caerdydd

Am wybodaeth pellach neu i weld y brif adroddiad cysylltwch ar ebost: **Halletts1@caerdydd.ac.uk**